

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); M. Evans (Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd I.R. Buckley a S. Wyndham (Archwiliad Cymru).

### 332 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 333 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2023 fel cofnod cywir.

### 334 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 335 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2022-23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 7 Medi 2023 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Roedd yr Hunanasesiad Blynyddol yn rhan o ofynion deddfwriaethol a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor, a oedd yn cynnwys hunanasesiad o'i waith yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, a oedd yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol ar gyfer 2020 i 2025. Atodwyd adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft Bro Morgannwg 2022/23 yn Atodiad A, gyda fersiwn 'hawdd ei ddarllen' yn Atodiad B.

Adroddwyd bod yr Hunanasesiad yn ddarn sylweddol o waith, a werthusodd ystod eang o berfformiad, ymgysylltu a mewnwlediadau data eraill o fframwaith cynllunio a pherfformiad blynyddol y Cyngor, gan gynnwys proses Hunanasesiad blynyddol a Her Cymheiriaid y Gyfarwyddiaeth a oedd yn galluogi'r Cyngor i ddod i gasgliadau ar ba mor dda yr oedd yn defnyddio ei adnoddau i gefnogi cyflawni

No.

Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol. Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â sut roedd gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth yn defnyddio'r pum ffordd o weithio [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015].

Credai'r Cyngor, ar y cyfan, ei fod wedi cyflawni ei ymrwymïadau Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23, yn ystod blwyddyn heriol arall i'r Cyngor. Roedd wedi priodoli dyfarniad o 'Dda' iddo'i hun, gan adlewyrchu cyflawniad dros 85% o weithgareddau a tharged perfformiad yn ystod y flwyddyn. Dyfarnwyd bod defnydd o adnoddau gan y Cyngor hefyd yn 'Dda' oherwydd bod ganddo dystiolaeth dda o sut y defnyddiwyd adnoddau yn economaidd, effeithlon, effeithiol a theg i wella perfformiad, cyflawni canlyniadau, diwallu angen ac roedd mewn sefyllfa gref i sicrhau gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol. O'r adolygiad, yr asesiad a gwaith monitro parhaus a wnaed gydol y flwyddyn drwy'r rhaglen waith fewnol ac allanol yn ogystal â chanfyddiadau y gwerthusiad perfformiad, gellid rhoi sicrwydd rhesymol bod y trefniadau llywodraethiant ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hystyried yn addas i'r diben yn unol â'r fframwaith llywodraethiant.

Cynhaliwyd gweithdai a dulliau eraill o ymgysylltu â phartneriaid, undebau llafur, busnesau lleol, preswylwyr a staff y Cyngor hefyd fel rhan o'r broses hunanasesu hon.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Roedd y Cynghorydd J. Protheroe o'r farn bod yr adroddiad yn hygyrch o ystyried lefel a manylion y wybodaeth a roddwyd. Gofynnodd am ychwanegu cyd-destun ychwanegol ynghylch y defnydd o staff asiantaeth a chanran gyffredinol cyflogau'r Cyngor sy'n mynd ar gontractau asiantaeth. Yn ogystal, byddai rhywfaint o wybodaeth am bolisiâu'r Cyngor ynghylch defnyddio staff a gyflogir drwy asiantaethau hefyd yn ddefnyddiol.
- Cwestiynodd y Cynghorydd M. Hooper pwy oedd y gynulleidf darged gan y byddai'n anodd i'r person cyffredin ymgysylltu â'r adroddiad, a dwedodd y dylid ystyried y farn gytbwys a roddwyd yn yr adroddiad, yn enwedig gan fod y Dreth Gyngor yn codi a lefel y gwasanaethau'n gostwng. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at Brexit, a grybwyllwyd o dan yr adran Heriau Critigol ond ychydig iawn o fanylion a gafwyd ynghylch yr hyn yr oedd hynny'n ei olygu. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Hooper hefyd am sylwebaeth fwy cytbwys ynghylch Prosiect Sero o ystyried bod y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn ei gyfarfod diwethaf wedi gofyn i'r risg gael statws "catastroffig". Cyfeiriodd hefyd at ddyddiau absenoldeb staff yn cynyddu, felly roedd angen mwy o gyd-destun y tu ôl i hynny yn ogystal â data i'w ddangos fel cymhariaeth ag Awdurdodau Lleol eraill. Yn olaf, dwedodd y Cynghorydd Hooper fod yr adroddiad yn crybwyll bod y Cyngor wedi cyflwyno technoleg newydd i hwyluso cyfarfodydd hybrid y Cyngor a'r Pwyllgor, ond o ystyried cynnydd diweddar a oedd hynny'n adlewyrchiad cywir.
- Dwedodd y Cynghorydd E. Goodjohn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

No.

- Dwedodd y Cadeirydd, Gareth Chapman, o ran meysydd oedd wedi methu targedau, y dylid ystyried ymhellach sut y cyflwynwyd y rhain a hefyd i gynnwys sylwebaeth bellach o dan yr adran Gwelliannau Rheoleiddiol.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol at y canlynol:

- O ran staff asiantaeth, byddai hynny'n cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Tîm Perfformiad yn ogystal â mwy o sylwebaeth ynghylch pwysau'r gweithlu.
- O ran y gynulleidfa, roedd hynny'n anodd gan fod yn rhaid i'r Cyngor ddangos sut yr oedd yn cydymffurfio ag amrywiol reoliadau. Roedd Rhan 6 y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn rhagnodol iawn mewn rhai meysydd felly roedd yn rhaid i'r iaith a ddefnyddiwyd fod yn eithaf technegol a arweiniodd at adroddiad gweddol faith.
- O ran Brexit, nid oedd o reidrwydd yn her allweddol, ond roedd yn risg o ran cyd-destun gwytnwch sefydliadol. Byddai'r geiriad o sut y mynegwyd hynny yn yr adroddiad yn cael sylw.
- O ran Prosiect Sero, roedd yn bwysig ystyried bod yr adroddiad yn dangos sut roedd y Cyngor wedi cyflawni camau y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn yn hytrach na nodi sut y byddai'r Cyngor yn cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd.
- Byddai'r sylwadau'n ymwneud â chyfarfodydd Hybrid yn cael eu hystyried.
- Byddai ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei rhoi i adrodd am feysydd oedd wedi methu'r targed.

Holodd Mr M. Evans (Aelod Lleyg) pa mor gyfforddus oedd y Cyngor gyda'r datganiadau a'r dyfarniadau yn yr adroddiad ac a oedd tystiolaeth i gefnogi'r rheiny. Cyfeiriodd Mr. Evans at arolygon ymgysylltu lle'r oedd nifer yr ymatebwyr mewn ffigurau unigol, ac fe holodd pa mor gyfforddus oedd y Cyngor wrth wneud casgliadau ar sail sampl fach o farn. Wrth ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod amrywiaeth o weithgareddau fel hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau a'r broses Graffu a ddefnyddid i brofi unrhyw ddyfarniadau a barn a ddeuai ger bron y Pwyllgor. O ran arolygon ymgysylltu, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oedd isafswm trothwy o gwmpas nifer yr ymatebion oherwydd gallai hynny fod yn ddibynnol ar yr ymarfer ymgysylltu neu ymgynghori. Mewn rhai amgylchiadau, efallai mai dim ond nifer gymharol fach o bobl y mae'r Cyngor yn eu targedu. Efen allweddol felly oedd dangos bod barn pobl yn cael ei hystyried ac yn cyfrif.

Gwnaeth y Cynghorydd E. Goodjohn sylw ar yr asesiad ynghylch y gwaith lobio a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac roedd am dynnu sylw at rai meysydd o lwyddiant fel buddsoddiadau trafndiaeth gyhoeddus. Dwedodd y Cyfarwyddwr fod lobio drwy CLILC ar gyfer setliadau ariannu aml-flwyddyn yn rhywbeth a fyddai'n codi'n rheolaidd fel rhan o broses hunanasesu'r Cyngor.

O ran maint, cynllun a chynnwys yr adroddiad Hunanasesu, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw arweiniad, ond er mwyn cysondeb a rhannu arfer gorau, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng penaeithiaid polisi o bob rhan o Gymru.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Cyfeirio sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet. Y sylwadau yw:

- Roedd yr adroddiad ar gael yn hawdd o ystyried lefel a manylder y wybodaeth a ddarparwyd;
- Ychwanegu cyd-destun ychwanegol o amgylch y defnydd o staff asiantaeth a chanran cyflogau cyffredinol y Cyngor y mae contractau asiantaeth yn eu gwneud. Hefyd i ychwanegu rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â pholisïau'r Cyngor ar ddefnyddio staff a gyflogir drwy asiantaethau;
- Pwy oedd y cynulleidfaoedd targed gan y byddai'n anodd i'r person cyffredin ymgysylltu â'r adroddiad;
- Ystyried y farn gytbwys a ddarparwyd yn yr adroddiad, yn enwedig gan fod Treth y Cyngor yn codi a lefel y gwasanaethau yn gostwng;
- Soniwyd am Brexit o dan yr adran Heriau Critigol ond ychydig iawn o fanylion oedd ynghylch ystyr hynny;
- A oedd angen sylwebaeth fwy cytbwys ar Brosiect Zero o ystyried bod y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi gofyn i'r risg gael ei briodoli i statws "trychinebus";
- Roedd yn bwysig tynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero gan fod y Cyngor wedi ymrwmo i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030;
- Soniodd yr adroddiad fod y Cyngor wedi cyflwyno technoleg newydd i hwyluso cyfarfodydd hybrid y Cyngor a Phwyllgorau, ond o ystyried y cynnydd diweddar a oedd yn adlewyrchiad cywir;
- Cyfeiriwyd at gynnydd mewn diwrnodau absenoldeb staff, felly roedd angen mwy o gyd-destun y tu ôl i hynny yn ogystal â data i'w ddangos o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill;
- Mewn perthynas â meysydd oedd wedi methu'r targedau i'w hystyried sut y cyflwynir y rhain a hefyd i gynnwys sylwadau pellach o dan yr adran Gwelliannau Rheoleiddio.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 336 CHWARTER 1 MONITRO RHEOLAETH TRYSORLYS 2023/24 (CYF) –

Y cyfeiriad gan y Cabinet ar 7 Medi, 2023 fel y cynhwysir yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg.

Nododd yr adroddiad safbwynt Rheoli'r Trysorlys yn erbyn nifer o Ddangosyddion allweddol y Trysorlys a Prudential ar 30 Mehefin, 2023. Roedd Dangosyddion Prudential wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys fel cynllun piblinell sy'n gofyn am hyd at £10m o fenthycy allanol ar draws y cyfnod.

No.

Adroddwyd na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill i Ddangosyddion y Trysorlys a Prudential a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn a byddai newid yn 2023/24 yn amodol ar newid i raglen gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf, yn fwyaf arwyddocaol o fewn y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai neu Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Ffactor sylweddol hefyd fyddai rhagamcanion cyfraddau llog.

Dwedodd y Rheolwr Gweithredol fod gostyngiad wedi bod i fenthycia allanol y Cyngor i £145.7m ac ar 30 Mehefin, 2023 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau o £83.320m.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at anawsterau cyllidebol sy'n wynebu rhai Cynghorau yn Lloegr, ac fe holodd a oedd unrhyw risgiau i fuddsoddiadau'r Cyngor. Mewn ymateb, dwedodd y Rheolwr Gweithredol fod Gweinidog Llywodraeth y DU wedi nodi na fyddai unrhyw awdurdod lleol yn cael mynd i'r wal gyda phwerau praesept ar gael pe bai unrhyw beth yn digwydd. Dwedodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor unrhyw amlygiad sylweddol ac y byddai ei fuddsoddiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Yn dilyn cais gan y Cynghorydd E. Goodjohn, dwedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai adroddiadau pellach yn cynnwys gwybodaeth am ragfynegiadau ar gyfraddau llog yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd pe bai unrhyw faterion neu risg yn codi ynghylch buddsoddiadau'r Cyngor, i'r rheiny gael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio fel mater o frys.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – Nodi adroddiad monitro Chwarter 1 ar gyfer Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 337 CYNLLUN ARCHWILIO MANWL DRAFFT ARCHWILIO CYMRU 2023 A DIWEDDARIAD CHWARTER 1 AR RAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU (CAC) –

Cyflwynodd Mr. S. Wyndham (Archwilio Cymru) yr adroddiad a oedd yn cynnwys drafft o Gynllun Archwilio Manwl 2023 a diweddariad Chwarter 1 (Ch1) ar raglen waith Archwilio Cymru. Amlinellodd Atodiad A Ddrafft o Gynllun Archwilio Manwl Archwilio Cymru 2023.

Amlinellodd Atodiad B gynnydd Ch1 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023/24, gan gynnwys unrhyw waith i'w gario ymlaen

Gofynnwyd i'r Aelodau adolygu a nodi'r drafft Gynllun Archwilio Manwl 2023 a'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro Morgannwg erbyn Ch1 ac ar ôl eu hystyried, cyfeirio'r adroddiad a'r atodiadau at y Cabinet iddynt gael trosolwg ohonynt..

Dwedodd Mr M. Evans (Aelod Lleyg) mai'r amcangyfrif ar gyfer gwaith ardystio grant oedd £65k a'r gwir wariant oedd £63k ar gyfer y llynedd. Felly gofynnodd am y gyrwyr y tu cefn i hynny. Awgrymodd Mr Evans hefyd y gallai'r Pwyllgor, ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol ac o ran y ffioedd a godir gan Archwilio Cymru, gael golwg ar beth oedd y gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. Mewn ymateb, dwedodd Mr Wyndham mai'r gwahaniaeth ar gyfer yr amcangyfrif o ffi ar gyfer gwaith ardystio grant oedd yn bennaf oherwydd yr amser a gymerodd i gwblhau gwaith archwilio budd-daliadau tai. Roedd hwnnw'n ddarn hir o waith archwilio a oedd yn anodd ei ragweld ac a oedd hefyd yn dechnegol a chymhleth iawn. Cytunwyd y dylid ystyried hynny ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 6 a gofynnodd a ddylai'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio gael golwg ar y datganiad cyfrifon ar gyfer y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a'r Gwasanaeth Mabwysiadu ar y Cyd. Amlygodd y Cadeirydd hefyd a ddylid cyflwyno'r cyfrifon ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Chonsortiw Canolbarth y De i'r Pwyllgor iddynt er mwyn cael trosolwg. Roedd y Pwyllgor yn cytuno ag argymhellid y Cadeirydd a dwedodd Mr S. Wyndham y byddai'n archwilio'r cais ymhellach.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at waith archwilio wedi'i gynllunio o ran partion cysylltiedig a thaliadau uwch swyddogion, a'r angen i Gynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt a bod ffurflen datgan buddiant berthnasol yn cael ei chwblhau fel y bo'n briodol.

Ynglŷn ag Atodiad B a'r cynnydd ar raglen waith Archwilio Cymru, cyfeiriodd y Cadeirydd at ganllawiau arfer da digidol, a gofynnodd a oedd hynny ar gyfer Swyddogion neu Aelodau Etholedig. Wrth ymateb, dwedodd S. Clements o Archwilio Cymru y byddai'n rhaid iddi wirio, ond byddai'r ddolen a anfonwyd at swyddogion hefyd yn cael ei hanfon at Aelodau Etholedig.

Holodd y Cadeirydd ynghylch yr adolygiadau thematig ar gynaliadwyedd ariannol a chomisiynu a rheoli contractau a chododd bryder ynghylch 'dileu prosiectau' Llywodraeth Cymru o ran plant sy'n derbyn gofal a'r defnydd o ddarparwyr sector preifat. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw waith wedi'i wneud o amgylch gwerth am arian a goblygiadau ariannol yn sgil bod y ddarpariaeth yn cael ei darparu'n llawn yn fewnol gan Gynghorau. Mewn ymateb, dwedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd y gwaith adolygu archwilio wedi'i gwmpasu eto, ond byddai'r Cyngor yn rhan o ymarfer cwmpasu cysylltiedig. Amlygodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n bwysig cynnwys yr Aelod Cabinet perthnasol hefyd.

Y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID ystyried gweld Datganiad Cyfrifon Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd, Consortiwm Canolbarth y De a hefyd y gwasanaethau ar y cyd eraill, sef y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a'r Gwasanaeth Mabwysiadu ar y Cyd, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(2) Y DYLID cyfeirio'r adroddiad a'r atodiadau at y Cabinet i'w harolygu.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

338 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2023).

Roedd yr Adroddiad Crynodeb Risg Corfforaethol (Atodiad A) yn rhoi trosolwg o'r holl risgiau corfforaethol yn y Gofrestr o ran eu sgôr cynhenid, effeithiolrwydd sgôr rheoli a sgôr gweddilliol ac yn rhoi amlinelliad o gyfeiriad y daith bresennol a'i rhagolygon. Roedd hefyd yn cynnig dadansoddiad byr o'r materion risg sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â risgiau ar y Gofrestr.

Roedd 17 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr. Sgoriodd pum risg yn uchel, sgoriodd pedwar risg yn ganolig-uchel, sgoriodd saith risg yn ganolig, a sgoriodd un risg yn ganolig-isel ar y Gofrestr.

Adroddwyd bod yr holl risgiau ar y Gofrestr wedi cynnal eu sefyllfa statig yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, ar wahân i freuder y Farchnad a oedd wedi gostwng o uchel (sgôr risg o 12) i ganolig-uchel (sgôr risg o 9). Roedd y sgôr risg gweddilliol ar gyfer risg breuder y Farchnad wedi lleihau i adlewyrchu'r gwelliant sylweddol yn y farchnad gofal Cartref. Roedd y cynnydd ychwanegol mewn cyllid fesul awr yr oedd y Cyngor wedi cytuno i'w ddarparu i'r farchnad gofal preswyl (12%) a gofal cartref yn chwarter 4 2022/23 wedi bod yn ffactor cefnogol sylweddol wrth helpu i ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd i farchnadoedd bregus iawn. Heb y buddsoddiad ychwanegol, roedd siawns gref y byddai darparwyr wedi gadael y farchnad. Ar ben hynny, roedd nifer o ddarparwyr gofal cartref newydd wedi ymuno â'r farchnad a chynnydd mewn recriwtio dramor gan yr asiantaethau hyn. Roedd y Cyngor hefyd wedi parhau i ehangu'r broses o gyflwyno 'Cynllun Eich Dewis'. Roedd y camau hyn wedi galluogi'r Cyngor i leihau nifer y pecynnau gofal a oedd yn disgwyl i gael eu rhoi yn sylweddol.

O ran cyfeiriad y daith a ragwelid, disgwyliid y byddai Breuder Ariannol, y Gweithlu a Prosiect Sero yn parhau i gynyddu dros amser. O ran Prosiect Sero, ar ôl ystyried statws y risg hon gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn Ch4,

No.

ystyriodd y Cabinet statws risg gweddilliol uchel iawn yng nghyd-destun trafodaeth y Pwyllgor ynghylch a oedd y sgôr risg hon yn 'gatastroffig'. Roedd Bwrdd Prosiect Sero i fod i gyfarfod yn ddiweddarach yn y mis i ystyried y risg gynhenid a'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer y risg hon a fyddai'n cael eu bwydo'n ôl i'r Pwyllgor yn y diweddariad risg chwarter nesaf. Roedd amseriad yr adolygiad o'r risg wedi'i drefnu gan fod dychweliad drafft y Cyngor i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon hefyd ar yr agenda ac felly byddai'n llywio trafodaethau yn seiliedig ar y data sydd ar gael.

Rhagwelwyd hefyd y byddai risgiau newid deddfwriaethol a diwygio llywodraeth leo yn parhau i leihau dros amser. Rhagwelid y byddai'r risgiau sy'n weddill ar y Gofrestr yn parhau'n sefydlog.

Holodd y Cadeirydd a oedd angen cofnodi unrhyw beth sydd â sgôr weddilliol o dan 8 yn y Gofrestr a'i reoli ar lefel Cyfarwyddiaeth. Wrth ymateb, dwedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn bwysig sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio, ond byddai'n ddefnyddiol adolygu lefel y trothwyon.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD – NODI sefyllfa Chwarter 1 o Risgiau Corfforaethol (Ebrill 2023 – Mehefin 2023) fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A).

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 339 SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS (SAMSC) - ASESIAD CYMHEIRIAID ALLANOL O'R GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL (PGAMR) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi Aseiad Cymheiriaid Allanol i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Roedd Atodiad A yn cynnwys Adroddiad Aseiad Cymheiriaid Allanol o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan yr asesydd allanol, Cyngor Dinas Casnewydd.

Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC/PSIAS) i rym o 1 Ebrill, 2013 (diweddarwyd 2017) a chyflwynodd ofyniad am aseiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol, y mae'n rhaid ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad.

Roedd 305 o linellau ymarfer gorau o fewn y SAMSC; roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cydymffurfio â 305 o'r gofynion ar hyn o bryd, heb unrhyw gydymffurfiaeth rannol na meysydd nad oedd yn cydymffurfio.



No.

Roedd dau faes i'w hystyried a fyddai'n gwella cydymffurfiaeth â'r SAMSC ymhellach, er nad oedd y rhain yn bryder sylweddol:

- 1,000 Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb (41) – Cyfeirio at y Strategaeth Gwrth-Dwyll yn y Siarter Archwilio Mewnol;
- 1,230 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (96) – Pob aelod o staff Archwilio Mewnol i gadw cofnod o'u gweithgareddau hyfforddi.

Argymhellwyd bod yr Aelodau'n rhoi ystyriaeth briodol i Asesiad Cymheiriaid Allanol y Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a chydabod a chymeradwyo ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau hynny.

O ran cynllun a fformat y ddogfen, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod fformat safonol a dull gweithredu wedi'u cytuno ymhlith yr 20 awdurdod lleol a gymerodd ran. Roedd yna grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Archwilio a fyddai'n gwneud cymhariaeth o'r materion a nodwyd a pha gamau y mae angen eu cymryd o ran diffyg cydymffurfio a beth oedd y themâu cyffredinol o ran gwelliannau. Cytunwyd y byddai'r ddogfen gwyno yn cael ei rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor.

Dwedodd y Cadeirydd y dylid llongyfarch y Tîm Archwilio, gan nodi'r ddau faes a awgrymwyd i'w gwella.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Y DYLID cydnabod a chymeradwyo Asesiad Cymheiriaid Allanol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 340 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23 (PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ystyried a gwneud sylwadau ar Adroddiad Drafft Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio 2022/23.

Dangosodd yr adroddiad sut yr oedd y Pwyllgor wedi cyflawni ei gylch gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y nodir gan y Mesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd wedi cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd yn ystod y flwyddyn.

Bydd y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol 2022/23 i'r Cyngor Llawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at sylwadau a wnaed fel rhan o'r Hunanasesiad yn Atodiad 3 ynghylch diffyg arbenigedd o beidio â bod â chefnidir archwilio sydd, ar adegau, yn ei gwneud hi'n anodd cymryd rhan mewn trafodaethau. Holodd y Cynghorydd Goodjohn a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i wella'r ddealltwriaeth o'r swyddogaethau archwilio a chyfrifyddiaeth. Mewn ymateb, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol y byddai'n edrych yn ôl i weld pa hyfforddiant a ddarparwyd ac edrych ar le y gellid darparu hyfforddiant pellach.

Yn dilyn y pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Goodjohn ynghylch bod gan rai aelodau amharodrwydd i gymryd rhan mewn dadleuon, dwedodd y Cynghorydd M. Hooper ei fod yn meddwl tybed a oedd y math o gyfryngau a ddefnyddir ar gyfer y cyfarfodydd yn ffactor cyfrannol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at faint mawr y dogfennau y gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor eu hystyried a olygai fod rhai adroddiadau'n anodd eu darllen a'u treulio'n llawn.

Dwedodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) y byddai'n well llunio'r adroddiad drafft yn gynharach yn y flwyddyn ar gyfer iteriad nesaf yr adroddiad blynyddol. Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a byddai'n anelu at lunio adroddiad y flwyddyn nesaf rywbryd yn ystod mis Mai neu fis Mehefin.

Argymhellodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, y dylid caniatáu i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio gael pedair wythnos arall i ymateb a rhoi sylwadau ar yr adroddiad blynyddol, ac yna cyflwyno fersiwn wedi'i diweddarau i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr. Cytunwyd ar yr argymhelliad gan aelodau.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, nododd y Pwyllgor

**PENDERFYNWYD – Y DYLLID caniatáu pedair wythnos i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 ac i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr.**

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### **341 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2023-24 (PGAMR) –**

Manylwyd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun cymeradwy archwiliad mewnol ar sail risg 2023-24 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Awst 2023 yn Atodiad A yr adroddiad. Dangosodd fod 14 o 61 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi'u cwblhau hyd yn hyn, sy'n cyfateb i gyfradd cwblhau o 23%. Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi gosod targed o gwblhau 30% erbyn diwedd Chwarter 2.

Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, roedd barn archwilio wedi ei chynnig ar 11 o'r 14 archwiliad a gwblhawyd. Roedd 9 archwiliad wedi derbyn sicrwydd o Sylweddol neu Resymol a 2 archwiliad wedi derbyn sicrwydd Cyfyngedig, a ddangosir yn atodiad ! yr adroddiad. Roedd y risgiau a nodwyd yn y 2 archwiliad sicrwydd Cyfyngedig yn benodol i wasanaethau ac fe'u nodwyd yn yr adroddiad.

Yn rhan o'r cynllun eleni, roedd 21 o archwiliadau nad oeddent wedi'u cynnal na'u cwblhau yn 2022-23. Dangosodd Atodiad B i'r adroddiad statws yr archwiliadau hynny, a oedd yn cynnwys 6 o'r 21 archwiliad sydd bellach wedi'u cwblhau, 5 ar y gweill.

Hyd yn hyn gwnaed 90 o argymhellion i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r rheiny yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Archwilwyr a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) at baragraff 2.2 yr adroddiad, a oedd yn nodi mai'r targed erbyn diwedd chwarter 4 oedd i 80% o'r Cynllun gael ei gwblhau. Mewn ymateb, dwedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mai'r rheswm pam nad oedd y targed yn 100% oedd bod y Cynllun wedi'i seilio ar gyflenwad llawn o staff ac nad oedd y tîm yn llawn eto. Ar ben hynny, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y Cynllun yn cynnwys amcangyfrif ac y byddai heriau hefyd a fyddai'n effeithio ar dargedau fel salwch staff a swyddi gwag.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Protheroe at yr archwiliad i gaffael a oedd wedi'i gario ymlaen o 2022/23 a oedd â chysylltiad agos ag archwilio cynllun dirprwyo'r Cyngor. Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe a fyddai'r ddau yn ymddangos yn y gwaith adolygu archwilio eleni. Mewn ymateb, dwedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod caffael wedi ymddangos mewn nifer amrywiol o archwiliadau unigol a gynhaliwyd ar feysydd penodol i wasanaethau. Ni ddigwyddodd yr archwiliad i gaffael y llynedd oherwydd bod trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar y cyd â Chyngor Caerdydd. Felly, cytunwyd i ganiatáu amser i'r trefniadau newydd ymwreiddio ac i'r gwaith adolygu ddechrau ddiwedd 2023/24. Byddai hynny hefyd yn berthnasol i'r cynllun dirprwyo.

Amlygodd y Cadeirydd, Mr. G. Chapman, baragraff 2.6 yr adroddiad a nododd 2 archwiliad a oedd wedi cael barn sicrwydd Cyfyngedig, sef Diwydiannau Cerdyn Talu – Safonau Diogelwch Data (SDD DCT/PCI-DSS) a Gwasanaethau Penodai a Dirprwy. Cododd y Cadeirydd bryder nad oedd gan y Cyngor bolisiau na gweithdrefn ar waith ar gyfer rheoli'r cyfrifon hynny lle'r oedd y Cyngor yn gweithredu fel Penodai. Mewn ymateb, dwedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'r Tîm Archwilio fel arfer yn cynnal adolygiad dilynol o'r camau gwella a gytunwyd gyda'r rheolwr gwasanaeth. Gellid gofyn am ddiweddariad cynnydd gan y rheolwyr gwasanaeth o ran cwblhau'r cynllun gweithredu perthnasol. Ynglŷn â'r Gwasanaethau Penodai a Dirprwy, cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod

No.

4 argymhelliad gwella wedi'u cytuno, gyda'r un olaf i fod i gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2023. Roedd angen y dyddiad hwnnw gan fod y gwasanaeth am geisio cyngor cyfreithiol i weld sut y gallent fynd ati i ddod o hyd i'r cysylltiadau cywir. Felly, ni fyddai adolygiad dilynol yn dechrau tan ar ôl y dyddiad hwnnw.

O ran y Diwydiannau Cerdyn Talu – Safonau Diogelwch Data (SDD DCT/PCI-DSS), dwedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y bu oedi oherwydd heriau a wynebwyd gyda gweithredu system Oracle newydd y Cyngor.

Dwedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn goruchwilio'r ddau faes hynny ac y byddai'n codi'r materion ymhellach ar lefel Cyfarwyddiaeth.

Yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023-24.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 342 ADRODDIAD MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

Mae manylion datganiad safbwynt o ran blaenoriaethau uchel a chanolig yr argymhellion archwilio mewnol a wnaed, sydd ar waith a heb eu cwblhau ar 30 Awst 2023 i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwnaed cyfanswm o 13 o argymhellion blaenoriaeth Uchel a Chanolig yn dilyn casgliad archwiliadau o Gynllun Blynyddol 2023-24. Cytunwyd ar y rhain i gyd a hyd yma roedd 3 wedi'u gweithredu, roedd gan 10 ddyddiad gweithredu yn y dyfodol ac nid oedd unrhyw yn weddill.

Nid oedd unrhyw argymhellion ar hyn o bryd heb eu cyflwyno.

Roedd 5 argymhelliad blaenoriaeth canolig a wnaed mewn archwiliadau a gynhaliwyd yn 2021-22 yn parhau â dyddiad targed ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Manylwyd ar y rhain yn Atodiad B yr adroddiad. Yn ogystal, roedd gan 39 o argymhellion a wnaed yn 2022/23 ddyddiad targed yn y dyfodol ac roedd y rhain yn parhau i gael eu monitro.

Roedd archwilwyr yn monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd M. Hooper o ran Tabl 2 dan baragraff 2.2 yr argymhellion a weithredwyd, y byddai'n ddefnyddiol gwybod beth oedd eu lefelau

No.

blaenoriaeth. Cytunwyd i hynny gael ei adlewyrchu mewn adroddiadau diweddarau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, gamau gweithredu a oedd yn weddill ar gyfer Diogelu Corfforaethol a Seiberddiogelwch, a gofynnodd gan y bu nifer o ddiwygiadau i ddyddiadau cwblhau'r argymhelliad, i'r Cyfarwyddwyr perthnasol a/neu'r Pennaeth Gwasanaeth gael eu gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio er mwyn egluro'r rhesymau dros yr oedi ac amlinellu pa gamau oedd ar waith er mwyn cwblhau'r argymhellion. Cytunodd y Pwyllgor i gais y Cadeirydd.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) CYTUNO ar statws yr argymhellion Uchel a Chanolig sydd yn yr adroddiad.
- (2) Y DYLID gwahodd y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu corfforaethol a seiberddiogelwch i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn rhoi gwybod am y rhesymau am yr oedi o ran y camau gweithredu a gwblhawyd ac i amlinellu pa gamau a gymerwyd yn eu lle er mwyn cwblhau argymhellion.

#### Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 343 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl.

Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd Blaenraglen Waith (BW) ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y BW wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24 yn Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddarau neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, gan nodi y gwahoddir y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu a seiberddiogelwch i fynychu'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 23 Hydref.

No.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD – Y DYLLID cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 23 Hydref, 2023, a gwahodd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu corfforaethol a seiberddiogelwch i fod yn bresennol.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod ac i gadarnhau presenoldeb a gofynion gwybodaeth.